**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Adolygiad Polisi o'r Iaith Gymraeg mewn Addysg**
**Ymateb Mudiad Ysgolion Meithrin**

## 1. Cefndir Mudiad Ysgolion Meithrin

1.1 Mudiad gwirfoddol yw Mudiad Ysgolion Meithrin sy'n sefydlu, cefnogi a bugeilio darpariaeth Gofal ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector honno. Cydnabyddir mai Mudiad Ysgolion Meithrin sydd wedi bod yn bennaf gyfrifol am y twf diweddar yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg ifanc (3-15oed) drwy ei waith yn sefydlu a chynnig cefnogaeth i gylchoedd Ti a Fi a chylchoedd meithrin, yn enwedig mewn ardaloedd fel y de-ddwyrain a'r gogledd-ddwyrain, lle mae lleiafrif o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

1.2 Mae llwyddiant y Mudiad yn deillio o sawl ffactor megis dewis i rieni, gweithredu yn y gymuned leol, y dull trochi o ddysgu iaith, cefnogaeth estynedig i'r grwpiau a rhieni, a dulliau effeithiol o genhadu a marchnata.

## 2. Y Sefyllfa Bresennol

2.1 Ym mis Mehefin 2001, roedd 403 cylch Ti a Fi a 578 cylch meithrin yn aelodau
o Fudiad Ysgolion Meithrin, ac amcangyfrifir fod y cylchoedd hyn yn darparu profiadau i oddeutu 13,367 o blant yn ddyddiol.

2.2 Mae pob un cylch meithrin yn elusen gofrestredig, ac yn cael ei reoli gan bwyllgor o rieni a charedigion. Cefnogir y cylchoedd hyn gan rwydwaith cenedlaethol o Swyddogion Datblygu proffesiynol sy'n darparu gofal bugeiliol a
chyngor, ac sydd hefyd yn monitro ansawdd y ddarpariaeth.

2.3 Gwreiddir pob un o gylchoedd meithrin Mudiad Ysgolion Meithrin yn y gymuned leol, ac maent yn gwasanaethu'r gymuned honno, gan genhadu a marchnata manteision dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg i ddarpar rieni a rhieni newydd.

2.4 Yn aml, cylchoedd Mudiad Ysgolion Meithrin yw'r cyffyrddiad cyntaf i rieni di-Gymraeg â'r iaith, ac o'r herwydd mae'r cylchoedd hyn yn cyflawni gorchwyl allweddol drwy gynnig gwybodaeth a chefnogaeth estynedig iddynt, a'u hannog i barhau ag addysg Gymraeg eu plant. Mae'r cylchoedd hefyd yn cyflawni rôl rhagweithiol drwy ymgyrchu a phwyso ar Awdurdodau Lleol i sefydlu ysgolion cynradd Cymraeg lle nad oes dilyniant ar gael o fewn pellter rhesymol, ac ar ffurf sy'n dderbyniol i rieni.

## 3. Cylch Gorchwyl yr Adolygiad

3.1 Mae Mudiad Ysgolion Meithrin wedi nodi cylch gorchwyl yr adolygiad polisi, ond yn dymuno crynhoi ei ymateb i'r elfennau hynny o'r adolygiad sy'n

berthnasol i'w waith.  Ar ôl dweud hynny, dylid nodi fod natur y gefnogaeth y mae'r Mudiad yn ei ddarparu i bob cylch, a'i aelodau yn golygu fod ei ddiddordebau yn eang.

3.2 Cydnabyddir yn gyffredinol fod plant ifanc iawn yn gallu caffael mwy nag un iaith yn arbennig o rwydd, ac felly mae dulliau rhagweithiol yn y blynyddoedd cynnar yn hynod o effeithiol wrth sicrhau siaradwyr naturiol a rhugl mewn mwy nag un iaith.  Byddai neilltuo adnoddau cyllidol ychwanegol ar gyfer dysgu iaith yn y blynyddoedd cynharaf yn talu ar ei ganfed, ac yn lleihau yr angen am ddysgu'r Gymraeg fel ail iaith yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Credwn y dylid cynyddu'r cyfleon i blant oed meithrin gael eu cyflwyno i'r iaith Gymraeg fel y gellir manteisio ar allu plant bach i gaffael iaith newydd, iddynt fagu parch at y Gymraeg a'r Saesneg, ac i rieni allu gwneud penderfyniad cytbwys ynglyn â chyfrwng iaith addysg pellach eu plentyn.

3.3 Mae llwyddiant Mudiad Ysgolion Meithrin wedi ei seilio ar y dull trochi o ddysgu iaith, ac awgrymwn y gallai'r dull hwn brofi yn arbennig o effeithiol o'i ddefnyddio yn ehangach.  Byddai astudio effeithiolrwydd defnyddio'r dull hwn mewn gwledydd eraill o fudd i ni yma yng Nghymru.

## 4. Materion Penodol

<u>Addysg Feithrin / Gofal Allysgol</u>

4.1 Gan y gall fod yn amhriodol i Fudiad Ysgolion Meithrin gynnig sylwadau ar rai agweddau penodol, megis ariannu, hoffem gynnig sylwadau mwy cyffredinol ynglyn â'n gweledigaeth i'r dyfodol.

4.2 Credwn y dylid ystyried yr egwyddorion canlynol yng nghyd-destun addysg feithrin wrth gynllunio tuag at  y nod o Gymru ddwyieithog.

4.2.1 Mae sicrhau'r continwwm ieithyddol ac addysgol o'r cyfnod pan fo plentyn yn cael ei eni yn allweddol i lwyddiant unrhyw gynllun o'r math hwn.  Dylid darparu cyfleon i rieni newydd a'u plant gyfarfod mewn awyrgylch croesawgar ac anffurfiol yn lleol, er mwyn codi ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd, yn fuan ar ôl genedigaeth y plentyn, ac i ddarparu cyfleon i rieni holi a thrafod addysg cyfrwng Cymraeg pellach fel dewis, gyda rhieni eraill ac arbenigwyr.

4.2.2 Dylid darparu cyfleoedd i rieni weld eu plentyn mewn sefyllfa cyfrwng Cymraeg cyn iddo gyrraedd oed ysgol gorfodol.  Mae'n gallu cymryd amser i lawer o rieni wneud y penderfyniad pwysig ynglyn â chyfrwng iaith addysg eu plant, ac o'r herwydd, mae'n hanfodol fod rhieni y cael cyfleoedd i weld eu plentyn yn manteisio ar brofiadau cyn ysgol cyfrwng Cymraeg cyfoethogol.

4.2.3 Dylid ymgyrraedd at sefyllfa lle mae pob rhiant yn gallu dewis cyfrwng iaith  y ddarpariaeth y dymunant ar gyfer eu plentyn ar sail gwybodaeth gytbwys a chyflawn.  Er mwyn galluogi pob rhiant i wneud y dewis hwn, mae'n hanfodol sicrhau cyfle cyfartal o ran mynediad.  Rhaid ystyried yr elfennau canlynol o ran y cyfle cyfartal hwn i rieni

- Hygyrchedd y ddarpariaeth
- Cost y ddarpariaeth

- Ansawdd y ddarpariaeth

Ar hyn o bryd, nid yw'r cyfleon sydd ar gael yn adlewyrchu cyfle cyfartal ymhob rhan o Gymru. Nodwn yn arbennig nad yw ysgolion Cymraeg y de-ddwyrain yn ysgolion cymuned; yn hytrach, maent yn gwasanaethu bro eang. Mae tuedd Awdurdodau Addysg Lleol i gyllido addysg blynyddoedd cynnar yn y sector a gynhelir yn unig yn golygu felly fod rhieni un ai yn gorfod talu i fynychu darpariaeth y Mudiad yn lleol, neu'n gorfod cludo eu plant i'r ysgol Gymraeg agosaf. Mae amryw o'r herwydd yn dewis addysg cyfrwng Saesneg lleol. Mae sefyllfa fel hon yn milwriaethu yn erbyn yr egwyddor o gyfle cyfartal, ac yn hyd yn oed fwy annheg i deuluoedd ifainc difreintiedig. Credwn yn gryf y dylai'r egwyddor o gyfle cyfartal fod yn sail holl gynllunio ieithyddol yn y dyfodol.

4.2.4 Yn ychwanegol, credwn yn gryf yn yr egwyddor o ddysgu trwy chwarae strwythuredig fel dull o sicrhau cyfleon i blant fwynhau'r iaith, ac i sefydlu patrymau cyfathrebu y tu allan i sefyllfaoedd dysgu ffurfiol. Dylid sefydlu systemau cadarn i fonitro a gwerthuso ansawdd, dull, ac effeithiolrwydd cyfundrefnau cyflwyno'r iaith.

4.2.5 O ran monitro datblygiad iaith plant sy'n mynychu cylchoedd meithrin, mae'r athro Colin Baker o Brifysgol Bangor eisoes wedi cwblhau ymchwil ar ddatblygiad iaith plant ein cylchoedd. Cyhoeddir y canlyniadau yn fuan, a gobeithir y bydd yr ymchwil nid yn unig yn dystiolaeth o effeithiolrwydd y dull trochi o ddysgu ac o waith ein cylchoedd, ond hefyd yn rhoi arweiniad clir a phendant ar ddulliau o fonitro datblygiad iaith plant bach.

4.2.6 Er mwyn rhoi'r cyfle gorau i blant ddatblygu yn ieithyddol ac addysgol, dylid cefnogi rhieni i gyfrannu ac i gyfranogi o'r cychwyn cyntaf. Yn aml bydd gan rieni gwir ddiddordeb mewn helpu'r plentyn, ac i ddysgu'r iaith ar y cyd. Dylid sicrhau'r gefnogaeth orau posib i alluogi hyn i ddigwydd.

4.2.7 Mae prinder llefydd gofal dydd llawn cyfrwng Cymraeg ar gael, ac mae angen buddsoddiad sylweddol yn y maes hwn ar draws Cymru. Un broblem yw nad yw cronfeydd strwythurol Ewrop yn hyrwyddo sefydlu meithrinfeydd dydd unigol; maent yn tueddu i gynorthwyo busnesau mawr sydd â gweithleoedd niferus. Pe byddai modd cyfeirio cyllid o ffynonellau Ewrop i sefydlu meithrinfeydd Cymraeg cymunedol a fyddai'n cefnogi sawl busnes llai, byddai'n gam mawr ymlaen i helpu i unioni'r anghyfartaledd hwn. Yn yr un modd, dylid pwysleisio pwysigrwydd darparu cynlluniau chwarae cyfrwng Cymraeg yn ystod gwyliau ysgol, fel bod plant yn gallu cael cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd hamdden a hwyl y tu allan i sefyllfaoedd strwythuredig. Pryderwn hefyd am brinder clybiau allysgol cyfrwng Cymraeg, a byddwn am bwyso ar y Cynulliad i sicrhau fod sefydlu rhagor yn flaenoriaeth gan Glybiau Plant Cymru er mwyn cyfrannu at y ddarpariaeth gyflawn.

4.2.8 Croesawn fwriad y Cynulliad i weld sefydlu Canolfannau Integredig ymhob sir – a
fydd yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau i blant ifanc a'u teuluoedd. Mae'n bwysig fod yr un ystod o gyfleon ar gael trwy Gymru i rieni sy'n dymuno gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, ac y bydd y dull trochi o ddysgu'r iaith yn cael ei ddefnyddio cyn amled â phosib o fewn y canolfannau hyn.

4.2.9 Mae'n dra phosib y gwelir cynnydd yn niferoedd darpariaethau meithrin yn y sector a gynhelir o ganlyniad i'r bwriad o gynnig llefydd rhan amser i blant tair oed. O safbwynt y Gymraeg, mae'n gwbl hanfodol nad yw hyn yn digwydd ar draul darpariaeth i blant dwyflwydd a hanner fel nad oes toriad yn y continwwm ieithyddol/addysgol. O gofio'r pwynt a nodwyd yn 4.2.3, nad yw ysgolion Cymraeg mewn ardaloedd is eu dwysedd o siaradwyr Cymraeg yn ysgolion cymuned, mae'n bwysig sicrhau fod yr un cyfleon ar gael yn lleol i rieni sy'n dymuno darpariaeth Gymraeg. Pwyswn ar y Cynulliad i osod cyfrifoldeb clir a diamwys ar yr Awdurdodau Lleol parthed cyllido addysg feithrin cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant 3 oed yn lleol ac yn hygyrch i deuluoedd.

4.2.10 Dylid parhau a'r gwaith o glystyru cylchoedd yn y sector gwirfoddol cyfrwng Cymraeg gyda'u hysgol Gymraeg leol er mwyn sicrhau cysondeb dulliau dysgu a chyflwyno iaith, cynllunio'r ddarpariaeth, a meithrin cysylltiadau cynnar gyda rhieni y plant ifancaf. Nodwn ymhellach fod sicrhau dilyniant o gylch Ti a Fi i gylch meithrin i'r ysgol Gymraeg yr un mor bwysig er dyfodol yr iaith â sicrhau dilyniant rhwng yr ysgol gynradd Gymraeg a'r ysgol uwchradd Gymraeg.

4.2.11 Mae'n bwysig sicrhau fod gwasanaeth gwybodaeth Gofal Addysgol cyfrwng Cymraeg ar gael yn eang trwy Gymru ac ar ffurf sy'n cyrraedd at bob rhiant waeth beth fo'i gefndir. Yn ddelfrydol dylid sicrhau delwedd gyson a holistaidd ar draws Cymru fel y gall darpar rieni a rhieni newydd adnabod y deunydd yn hawdd, a dod yn gyfarwydd â'r negeseuon a gyflwynir ynddo.

**Anghenion Addysgol Arbennig**

Un elfen o gyfle cyfartal wrth gwrs yw sicrhau'r un cyfleon i blant ag anghenion addysgol arbennig i ddysgu'r iaith â phob plentyn arall, ac i dyfu'n ddwyieithog

5.1 Mae angen sicrhau cyllid ychwanegol o fewn cyllideb addysg plant tair oed er mwyn cefnogi plant ag anghenion addysgol arbennig sy'n dymuno gwasanaeth cyfrwng Cymraeg.

5.2 Mae sicrhau parhad y continwwm ieithyddol-addysgol sy'n cychwyn pan fo plentyn yn cael ei eni yn allweddol er mwyn adnabod anghenion addysgol arbennig yn gynnar, a chynnig ymyrraeth briodol cyn gynted ag y bo modd.

5.2.1 Mae darparu cyfleoedd i asesu plant ag anghenion addysgol arbennig mewn sefyllfa cyfrwng Cymraeg cyn iddynt gyrraedd oed ysgol gorfodol yn hollbwysig er mwyn sicrhau darpariaeth briodol iddynt.

5.2.2 Pwyswn ar y Cynulliad i rhoi blaenoriaeth i sefydlu mesurau a fydd yn sicrhau fod ystod cyflawn o arbenigwyr sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael yng Nghymru.

5.2.3 Byddai sefydlu canolfan adnoddau therapïau cyfrwng Cymraeg yn hwyluso'r dasg o rannu'r adnoddau ac ymarfer da sy'n digwydd ar hyn o bryd ym maes anghenion addysgol arbennig, ac yn cyfoethogi maes sy'n arbennig o brin o rhan adnoddau sydd wedi eu cynhyrchu yn bwrpasol ac yn broffesiynol.

5.2.4 Dylid cynnal arolwg i ddarganfod pa gyfleoedd sydd i blant ac anghenion addysgol arbennig fanteisio ar yr un profiadau a'u cyfoedion, gan edrych yn benodol ar gynlluniau gwyliau, gofal allysgol a gofal cofleidiol.

5.2.5 Dylid sicrhau fod y gronfa ddata gwybodaeth gwasanaethau plant yn cynnwys gwybodaeth am gyfleon cymorthedig sydd ar gael yn lleol i blant ag anghenion addysgol arbennig, gan nodi yn benodol y cyfleoedd hynny a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg

## 6. Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol

6.1 Mae angen sicrhau cyllid digonol i gynnig hyfforddiant mewn swydd i bawb sy'n gweithio yn y maes blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg fel bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i ymestyn a chyfoethogi iaith Gymraeg plant. Byddai sicrhau cyrsiau gloywi iaith a chyrsiau Cymraeg meithrin yn hwyluso'r dasg hon.

6.2 Mae angen ymgynghorwyr iaith lleol/sirol i weithio ar draws y sectorau er mwyn hyfforddi a chefnogi addysgwyr yn y gweithle

## 7. Adnoddau a Deunyddiau Addysgol

Mae prinder dybryd o adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar. Dylid comisiynu asiant gyda arbenigedd yn y maes i gynhyrchu a datblygu deunyddiau gwreiddiol yn y Gymraeg, deunyddiau a fydd yn hyrwyddo'r Canlyniadau Dymunol ac a fydd yn hybu dwyieithrwydd ymysg plant bach.

Mudiad Ysgolion Meithrin
28.02.02